HER POWYS

Rhif Elusen Gofrestredig: 1091494 Rhif Cwmni: 4350654

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Mae Her Powys wedi mabwysiadu'r egwyddor wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd Her Powys yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd yng Nghymru.

CYFLWYNIAD

Mae Her Powys yn elusen gofrestredig annibynnol sydd yn anelu at "leihau trosedd a'r ofn o drosedd a mynd i'r afael â'r rhesymau dros ymddygiad troseddol ym Mhowys trwy ddarparu nifer o wasanaethau cynhaliol a chyfleoedd i droseddwyr, amddiffynwyr, rhai sydd mewn perygl o droseddu a'u teuluoedd." Mae'r yn cyrraedd y nod yma trwy weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill (yn y sectorau statudol,cyhoeddus a gwirfoddol) a thrwy weithio â thîm o wirfoddolwyr hyfforddedig sydd yn cynnig pecynnau cynhaliol o dan arweiniad gweithwyr cymdeithasol proffesiynol. Mae'r yn cyflogi staff swyddfa ac ar hyn o bryd mae tros gant o wirfoddolwyr yn gweithio drwy'r sir.

Mae Her Powys yn cynnal swyddfeydd ym mhob un o siroedd Powys. Lleolir y canolfannau yma yn Ystradgynlais, Y Drenewydd a Llandrindod. Yn Ystradgynlais a'r Drenewydd mae'r swyddfeydd oddi mewn i adeiladau Gwasanaeth Prawf Powys. Yn Llandrindod, mae'r wedi sicrhau adeilad sydd yn swyddfa i Faesyfed ac yn bencadlys i'r sir. Yn ogystal â hyn, rhennir swyddfeydd gyda Thimau Troseddwyr Ieuenctid yn Aberhonddu a'r Drenewydd.

Ar hyn o bryd, mae Her Powys yn cyflogi unarddeg o staff. Mae tri aelod o staff llawn amser ac wyth rhan amser.

Mae Her Powys yn gwasanaethu poblogaeth o gwmpas 125,000 ar hyn o bryd ac mae honno yn wasgaredig trwy'r sir i gyd.Mae'r sir tua 2000 o filltiroedd sgwâr ac mae'r fwyaf gwasgarog yn Lloegr a Chymru. Y dref fwyaf yw Y Drenewydd gyda phoblogaeth o 10,000; dim ond pedair tref arall sydd â phoblogaeth dros 3,000.

Amcangyfrifir bod 20% o boblogaeth Powys yn siarad Cymraeg. Mae dwy ardal sydd yn amlygu fel ardaloedd Cymreig eu hiaith, sef gogledd-orllewin Maldwyn a'r rhan dde-orllewinol Brycheiniog. Yn y blynyddoedd diwethaf gwelwyd cynnydd sylweddol yn y nifer o siaradwyr Cymraeg ymysg y grwpiau ifanc. Mae 33% o'r rhai rhwng 5-15 oed yn gallu siarad Cymraeg.

Bwriada Her Powys roi gwasanaeth i'r rhai sydd yn siarad Cymraeg yn y sir. Mae'r yn cydnabod ei bod yn amhosibl i roi gwasanaeth dwyieithog cynhwysfawr dros gyfnod byr.Bwriada brysuro at roddi gwasanaeth dwyieithog derbyniol o fewn deng mlynedd o gyflwyno'r cynllun yma. Bydd unrhyw bolisïau, mentrau a gweithgareddau newydd a ymgymerir gan yr yn gyson â'r Cynllun Iaith Gymraeg a bydd yr yn cysylltu â Bwrdd Yr Iaith Gymraeg ar unrhyw fater fydd yn effeithio ar y Cynllun. Hyrwyddir a hybir defnyddio yr iaith Gymraeg mewn polisïau a mentrau o'r fath pa bryd bynnag bosibl er mwyn nesu at yr egwyddor o gydraddoldeb.

HER POWYS - DELWEDD GYHOEDDUS

Mae'r yn credu y dylai ei delwedd gyhoeddus adlewyrchu y bwriad i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb a bydd yn mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol hollol ddwyieithog yn y dulliau canlynol.

Gwybodaeth Safonol

Bydd Her Powys yn defnyddio ac arddangos ei henw mewn teitl dwyieithog -;

Her Powys
Powys Challenge

Bydd y teitl a'r wybodaeth safonol sydd ynghlwm megis cyfeiriad a manylion cofrestriad elusennol, yn ddwyieithog ar bob deunydd a argreffir gan gynnwys penawdau papur, slipiau cyfarch,papur ffacs ac eitemau tebyg a ddefnyddir yn allanol.

Bydd yr wybodaeth yn ddwyieithog hefyd ar arwyddion a hysbysiadau parhaol ar adeiladau yr Ymddiriedolaeth,cyhoeddiadau a defnyddiau eraill a arddangosir yn gyhoeddus. Bydd y dewis o faint, fformat, ansawdd ac amlygrwydd yn hollol gyfartal.

Arwyddion

Bydd pob arwydd newydd neu y rhai hynny sy'n cael eu hailosod tu mewn a thu allan i swyddfeydd Her Powys yn ddwyieithog.

Os defnyddir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân yna fe fyddant yr un maint fformat, ansawdd ac amlygrwydd.

Cyhoeddiadau

Bydd taflenni a phosteri sydd I'w rhannu I'r cyhoedd, megis gwybodaeth defnyddwyr i unigolion a chymdeithasau mewn partneriaeth, yn ddwyieithog. Ceisir argraffu y rhain yn y Gymraeg a'r Saesneg mewn un ddogfen os na fydd rhwystr cyllidol. Yn y tymor byr, efallai y bydd rhaid cynhyrchu taflenni ar wahân yn y ddwy iaith.

Cynhyrchir defnyddiau i'w defnyddio oddi mewn yr Ymddiriedolaeth, megis Cylchlythyrau, yn Saesneg yn unig fel rheol ond y nod yw cael cynnwys dwyieithog er fe fydd hyn yn amrywio yn ôl y cyfraniadau a dderbynnir i'r Cylchlythyr.

Os yw deunyddiau wedi eu paratoi gogyfer eu dosbarthu yn Lloegr, yna byddent yn cael eu cynhyrchu yn Saesneg yn unig.

Recriwtio Staff A Gwirfoddolwyr

Mae hysbysebion recriwtio mewn papurau a chylchgronau eraill yng Nghymru, ar hyn o bryd, yn nodi fod siaradwyr y Gymraeg yn ddymunol. Cyhoeddir y rhain yn ddwyieithog.

Cynhyrchir taflenni, posteri a ffurflenni cais i recriwtio gwirfoddolwyr yn ddwyieithog.
Cynhyrchir dogfennaeth recriwtio staff yn ddwyieithog. Oddi mewn cyfyngiadau cyllidol, bydd deunyddiau o'r fath yn cynnwys fersiynau Cymraeg a Saesneg mewn un ddogfen. Fodd bynnag, yn y tymor byr, efallai y bydd yn angenrheidiol i gynhyrchu dogfennau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Ffurflenni

Gofynnir i ymgeiswyr gogyfer swyddi taladwy a gwirfoddol i gwblhau gwaith papur. Bwriedir cynhyrchu ffurflenni perthnasol sydd yn dod oddi mewn y maes cyhoeddus yn ddwyieithog.

CYFLWYNO Y GWASANAETH

DELIO A'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG

Mae Her Powys yn credu ym mhwysigrwydd darparu gwasanaeth o ansawdd uchel a bydd yn gweithio tuag at ddarparu gwasanaethau o'r fath yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r yn credu y dylai'r egwyddor yma gael ei harfer bob amser pan yn delio a'r cyhoedd gan gynnwys defnyddwyr y gwasanaeth, gwirfoddolwyr, staff, grwpiau, cymunedau a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Ychydig sydd ar y staff ac fe geisir cael cefnogaeth gan wirfoddolwyr ac Ymddiriedolwyr sy'n siarad Cymraeg i ddatblygu darpariaeth gwasanaeth i siaradwyr Cymraeg ac i roi cymorth gyda gohebiaeth,galwadau ffon a chyflwyno gwasanaethau uniongyrchol. Defnyddir gwasanaeth cyfieithwyr allanol os bydd darpariaeth fewnol yn annigonol.

Gohebiaeth

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg.Rhoddir cyfarwyddyd i'r staff sut i ddelio â gohebiaeth yn y Gymraeg.

Bydd Her Powys yn sicrhau:

- Pan dderbynnir llythyrau yn Gymraeg fe'u cydnabyddir yn Gymraeg.Os oes angen ateb manwl ysgrifenedig, danfonir ymateb yn Gymraeg, wedi ei lofnodi.

Mae'r yn cydnabod na fydd yn bosibl i amseroedd ymateb i ohebiaeth yn y Gymraeg fod mor gyflym ag yn y Saesneg ar y dechrau, ond dyna fydd y nod terfynol. Os bydd angen i'r ddanfon llythyr ar ôl cyfarfod ,cyfweliad neu drafodaeth ar y ffôn yn Gymraeg, fe ddanfonir y llythyr yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Y Ffôn

Croesewir galwadau ffôn yn y Gymraeg a'r Saesneg.Rhoddir canllawiau i staff a'r gwirfoddolwyr ar sut i ddelio a galwadau Cymraeg.
Bydd Her Powys yn sicrhau

- fod staff yn ymateb yn ddwyieithog i alwadau ffon allanol gan ddefnyddio cyfarchiad dwyieithog gan roi enw'r Ymddiriedolaeth.
- Os yw'r galwr yn dymuno siarad Cymraeg,cyfeirir yr alwad at siaradwr Cymraeg os oes un yn bresennol.

- Os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael, gwneir trefniadau i siaradwr Cymraeg
  alw yn ôl oni bai fod y galwr yn dymuno parhau â'r alwad yn Saesneg.
- Bydd cyfarchion peiriant ateb yn ddwyieithog.

Cyfarfodydd Cyhoeddus

Croesewir unrhyw un sydd am ddelio wyneb yn wyneb a Her Powys trwy'r Gymraeg.

Mae'r yn cydnabod nad oes gan y staff presennol y gallu i gyfathrebu yn effeithiol trwy'r Gymraeg.Fodd bynnag, fe all yr alw ar wasanaeth pedwar o wirfoddolwyr ac un ymddiriedolwr sy'n siarad Cymraeg.

Bydd yr yn parhau i geisio recriwtio gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg er mwyn cyrraedd anghenion cyflwyno'r gwasanaeth a bydd yn parhau i annog siaradwyr Cymraeg addas i geisio am swyddi cyflogedig.

DATBLYGIAD A HYFFORDDIANT STAFF

Hyfforddiant Iaith Gymraeg I Staff

Mae Her Powys am gryfhau ei adnoddau i weithredu ei Chynllun Iaith Gymraeg trwy hybu a chefnogi ei staff i ddysgu Cymraeg neu i wella y sgiliau sydd ganddynt yn barod yn y Gymraeg.

Cyn belled ag y mae'n bosibl, mae'r am ddatblygu y gallu i roi gwasanaeth i'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg ymhob un o'u swyddfeydd sirol trwy ei wirfoddolwyr a'i staff.

Gwneir trefniadau i roi hyfforddiant mewn Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg i bob aelod o staff.

Hybir staff i ddysgu'r iaith hyd at lefel meistrolaeth foddhaol. Rhoir cyfle i'r staff i ymuno â hyfforddiant a roddir gan Wasanaeth Prawf Powys ar gyfer ei staff ei hun. Mae'r Ymddiriedolwyr am fynegi eu diolch i Wasanaeth Prawf Powys am ei gefnogaeth yn y cyswllt yma.

Wrth benderfynu ar drefniadau hyfforddiant,ystyrir anghenion y mudiad yn ogystal â lefel diddordeb ac ymroddiad y staff. O ran adnoddau I ddarparu hyfforddiant rhoddir blaenoriaeth I'r ardaloedd hynny ble mae'n fwyaf tebygol o gael cysylltiadau / yr angen i gyfathrebu gyda defnyddwyr gwasanaeth Cymraeg eu hiaith.

Bydd yr yn ceisio recriwtio gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg i gynorthwyo staff yr nad ydynt yn siarad yr iaith gyda'u gwaith o ymateb i ohebiaeth neu alwadau ffon yn Gymraeg.

Bydd yr hefyd yn ceisio recriwtio gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg i fod yn fentoriaid i staff sy'n dysgu'r iaith ,ac, felly, yn rhoi cyfle iddynt i ymarfer a magu hyder.

GWEITHREDU AC AROLYGU'R CYNLLUN

Er mwyn bod yn barod i roi gwasanaeth o'r ansawdd gorau i aelodau o'r cyhoedd sy'n siaradwyr Cymraeg ym Mhowys, bydd rhaid i Her Powys gael nifer digonol o staff sydd yn siarad Cymraeg.Un o'r prif ystyriaethau wrth ddarparu staff sy'n siarad Cymraeg yw i ba raddau mae'r ardal yn defnyddio'r Gymraeg, er fe wyddid bod nifer fawr o siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd Saesneg eu hiaith. Mae hefyd yn hysbys bod cynnydd ymhlith pobl ifanc ledled y sir sy'n ddwyieithog.Oherwydd hynny,bydd cynnydd yn y galw am wasanaethau yn y Gymraeg yn y dyfodol.

Bydd Her Powys yn delio a hyn trwy sicrhau y bydd pob swyddfa sirol, mewn amser,â chyswllt â staff sy'n siarad Cymraeg neu yn cael cymorth gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg.

Pan benodir staff newydd,bydd y gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn cael ei ystyried yn ddymunol iawn a bydd ymgeiswyr sydd yn datgan hynny ar eu ffurflen cais yn cael eu hystyried yn ffafriol os ydynt hefyd yn cyd-fynd â gofynion hanfodol y swydd.

Bydd disgwyl i unrhyw staff a benodir i weithio mewn ardal sydd â nifer o siaradwyr Cymraeg, i adlewyrchu anghenion iaith yr ardal honno neu i ddangos parodrwydd pendant i ddysgu Cymraeg.

Gwneir arolygon cyson i gadarnhau pa aelodau o'r staff sy'n siarad Cymraeg,sydd yn dysgu Cymraeg neu sydd yn dymuno dysgu Cymraeg. Bydd yr wybodaeth yma yn cael ei ddefnyddio i ddynodi unrhyw wendidau yng ngallu Her Powys i gyflawni ei ymrwymiadau i'r Cynllun Iaith Gymraeg, yn ogystal ag i ddynodi anghenion hyfforddiant.

Bydd Her Powys hefyd yn ceisio sicrhau bod Bwrdd Yr Ymddiriedolwyr yn cynnwys aelodau sy'n ddwyieithog fel bod anghenion siaradwyr Cymraeg yn cael eu cynrychioli yn ddigonol.

Bydd Her Powys yn monitro y modd y mae yn cyflawni yr ymrwymiadau yn y Cynllun Iaith. Yn benodol bydd yn adolygu:-

- Trefniadau i ddelio a'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg,gan gynnwys yr amseroedd ymateb i ohebiaeth.
- Defnydd o gyhoeddiadau dwyieithog yn dangos manylion dwyieithog yr Ymddiriedolaeth.
- Trefniadau i ddarparu staff neu wirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg er mwyn rhoi gwasanaeth, gan gynnwys anghenion hyfforddi.
- Recriwtio gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg i roi gwasanaethau un-i-un i ddefnyddwyr y gwasanaeth.
- Cynnydd yn cydweddu a'r amserlen.
- Cwynion yngl ŷn â darparu gwasanaethau i siaradwyr Cymraeg.

Mae'r yn arolygu anghenion cleientau am wasanaeth Cymraeg ar hyn o bryd a bydd hyn yn parhau. Adolygir Cynllun Iaith Gymraeg yr yn flynyddol a gwneir newidiadau fel bo'r angen. Bydd adolygiad o gynnydd o ran gweithrediad y cynllun yn gynwysedig yn Adroddiad Blynyddol Her Powys ac fe'i danfonir i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Bydd Prif Swyddog Her Powys yn gyfrifol am sicrhau gweithrediad y cynllun,adolygu'r datblygiad a delio ag unrhyw gwynion.Dylid anfon ymholiadau neu sylwadau ar y cynllun i Brif Swyddfa yr Ymddiriedolaeth: T ŷ Trafford, Stryd

y Deml, Llandrindod, Powys LD1 5HG. Ffon 01597 822400. Ffacs 01597 829389. e-bost: office@powyschallenge.org.uk

CRYNODEB AC AMSERLEN

1. Mae gan Her Powys ar hyn o bryd bedwar gwirfoddolwr sydd yn siarad Cymraeg a sydd ar gael i roi gwasanaeth un-i-un i waith cleientau.Bydd yr yn dal i geisio recriwtio gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg i'r pwrpas yma ac i gynorthwyo staff i ddelio a gohebiaeth a galwadau ffôn. Pan fydd gwirfoddolwyr o'r fath wedi eu recriwtio a'u hyfforddi ,cysylltir a gwirfoddolwr cymwys pa bryd bynnag y derbynnir ymholiad yn y Gymraeg ,ac fe ddelir a phob ymholiad yn unigol.

2. Cynhelir arolwg erbyn Medi 2000,er mwyn dynodi lefel gwybodaeth o'r Iaith Gymraeg ymysg staff presennol Her Powys a hefyd lefel y diddordeb mewn gwersi Cymraeg. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn pennu beth yw lleiafswm nifer y siaradwyr Cymraeg angenrheidiol i roi gwasanaethau boddhaol i aelodau o'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg erbyn Mawrth 2001. Gwneir ceisiadau am nawdd a gwneir trefniadau ar gyfer hyfforddiant i'r staff hynny sydd wedi mynegi diddordeb mewn dysgu Cymraeg.

3. Darperir hyfforddiant i staff priodol sut i ateb y ffon yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac i ymddiheuro yn Gymraeg pan yn methu mynd ymlaen a'r drafodaeth yn Gymraeg. Bydd yr hyfforddiant yn cynnwys nodi cyfarchion peiriant ffôn – hyn i fod mewn grym erbyn Ebrill 2001.

4. Cydnabyddir gohebiaeth ysgrifenedig a dderbyniwyd drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn Ebrill 2001.

5. Cynhyrchir ffurflenni,taflenni a chyhoeddiadau cyhoeddusrwydd un ai yn ddwyieithog neu yn Gymraeg ac yn Saesneg erbyn Ebrill 2003.

6. Cynhyrchir Adroddiadau Blynyddol yn ddwyieithog erbyn Ebrill 2004.

7. Cynhyrchir arwyddion ar neu yn adeiladau Her Powys yn ddwyieithog pan eu hadnewyddir neu erbyn Ebrill 2002.

8. Bydd hysbysebion recriwtio staff yng Nghymru yn ddwyieithog erbyn Ebrill 2003.

9. Mae deunydd recriwtio staff yn nodi fod sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol ar hyn o bryd. Bydd y pwyslais yma yn cael ei gadw a byddwn yn nodi fod y gallu I gyfathrebu yn Gymraeg yn cael ei ystyried yn bositif pan fo ymgeiswyr yn meddu ar holl brif ofynion y swydd.

HER POWYS

Rhif Elusen Gofrestredig: 1091494 Rhif Cwmni:4350654

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

PARATOWYD O DAN DDEDDF
YR IAITH GYMRAEG 1993

November 2003

Her Powys
Tŷ Trafford (Prif Swyddfa)
Stryd y Deml
Llandrindod
Powys LD1 5HG
Ffon: 01597 822400
Ffacs: 01597 829389
e-bost: office@powyschallenge.org.uk